

## **CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED NOS LUN MEDI 27ain 2021**

### **PRESENNOL**

Cyng. Arwel L.Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod sydd yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol.

### **YMDDIHEURIADAU**

Cyng Austin Roberts

### **CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain o Orffennaf, 2021.

### **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion diwethaf.

### **ADOLYGU POLISI'AU'R CYNGOR**

Cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo'r polisi'au'r cyngor ynghyd a pholisi'r Covid-19.

### **TARMACIO FFYRDD YR ARDAL**

Nododd aelodau'r cyngor eu bod angen anfon neges i'r sir i ddiolch am y gwaith tarmacio ar y ffordd Llanddoged/Tyrpeg Uchaf yn ddiweddar.

### **CYNLLUNIO**

Cais cyfeirnod 0/4863 To arfaethedig dros ardal fwydo Llanrwst LL26 0YA

Trafodwyd y ceisiadau Pen y Graig, Rhiwlas Road, Maenan a Merllyn Isaf Maenan a phasiwyd drwy godi dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau yma.

### **CYNNAL A CHADW**

- 1) Tyllau ar y ffordd rhwng Ffrith Uchaf a Chefn Madog Maenan.
- 2) Twll yn ffordd rhwng croesffordd ac i lawr hyd at Fron Francis, Ffordd Fron Francis, Llanddoged.
- 3) Angen torri coed wrth fynediad i'r A470 wrth Bryn Rhydd Maenan er mwyn cerbydau cael gweld yn glir at gyfeiriad Llanrwst i ymuno ar ffordd fawr.
- 4) Angen edrych ar yr arwyddion 'dim yn addas i gerbydau trwm ' wrth Pen y Bryn Bach Llanddoged a Ffordd i lawr o Gadair Ifan Goch at yr Abbey.
- 5) Ffens wrth fynedfa i Gae Chwarae Cae Celyn angen ei drwsio.

### **UNRHYW FATER ARALL**

Cais gan y clerc i gael offer TGCh - Gliniadur a Phrinter. Trafodwyd aelodau'r cyngor y cais a phasiwyd drwy godi eu dwylo i gadarnhau i'r clerc brynu'r offer yma.